Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr

Cofnodion y cyfarfod ar 18fed o Ionawr 2024

Yn bresenol oedd Generys Roberts, Helen Jones, Eryl Evans (cadeirydd), Medwyn Roberts, Arwyn Ellis, Llyr Jones, Gethin Jones a Cyn Gwennol Ellis

Datgan diddordeb Mynegodd y clerc Carol Humphreys a Helen Jones ir agenda gweler y gohebiaeth isod.

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.

Gohebiaeth

1. Mandet banc pasiwyd bod y clerc sef Carol Humphreys yn arwyddo sieciau yn nghyd a unrhw ddau arall a enwir sef Helen Jones, Generys Roberts, Llyr Jones, Gethin Jones, a Eryl Evans, y clerc i lenwi y ffurflen mandet a pasiwyd o gwmpas ir cynghorwyr a enwir uchod iw harwyddo.
2. Adroddiad Cyn Gwennol Ellis – dywedodd bod yr allt y Crown wedi ail agor ac bod blwch wedi ei adael ar wal er mwyn plannu blodau, cafwyd arddeall bod blodau wedi ei plannu yma yn barod, y clerc i gysylltu a Gerallt Hughes or cwmni MWT i ddiolch iddynt. Dywedodd bod yma dal gwynion am y ceir y parcio yn y ffordd tu allan ir ddau fungalo yn y pentref ac awgrymwyd ein bod yn edrych i mewn ir broses o roi llinnellau melyn i lawr. Hefyd cafwyd cwyn bod loriau yn gor yrru drwy'r pentre ac bod rhaid gwylio hyn ac os bydd mwy o broblem yn codi ein bod yn edrych ar ofyn ir fan Go Safe ddod neu cychwyn ar monitor cael gwn cyflymdra a fydd yn cael ei reoli gan wirfoddolwyr y pentef.
3. UKSPF cais am arian wedi bod yn llwyddiannus gyda'r cais i wneud y astudiaeth dichnoldeb yn y pentref, cafwyd £4,471.87, y clerc i symud ymlaen rwan a cysylltu a Marc Roberts i ddod atom i gychwyn ar y broses oi gynllunio.
4. Urdd Gobaith Cymru Sir Conwy yn gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael.
5. Cyngor Sir Conwy cafwyd adroddiad am gyflwr y parc chwarae wrth y Gro dywedwyd bod tamaid o bren wedi ei dynnu oherwydd ei fod wedi pydru, dywedwyd nid oedd posib iddynt iw adnewyddu oherwydd diffyg arian yn y Sir.
6. Cyngor Sir Conwy adolgu gwasanaeth y Sir yn Llanfihangel dywedwyd ein bod yn ariannu y cynllun chwarae £200 ac wedi rhoi cyfrainad tuag at y Hwb Uwchaled £500.
7. Laptop ir Clerc dywedodd eu bod wedi prynnu laptop yn rhannog gyda Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion ar gost £200 yr un.
8. Lelo Skip anfoeb am y sgip yn mis Tachwedd £312.00 pasiwyd iw dalu.
9. Dwr Cymru anfoneb £54.24 wedi ei dalu DD
10. Tafarn y Crown cafwyd e bost ac mi drafodwyd y cynnwys y clerc i ysgrifennu atynt.
11. Bute Energy mynegodd Helen Jones ei bod yn datgan ei diddordeb ac ni chymerodd unrhyw drafodaeth ir cynnwys. Mae y cwmni yn awyddus i ddod atom i siarad efo ni, pasiwydi i gynnig dyddiad i Eluned Lewis yn ein cyfarfod nesaf sef 12fed o mis Mawrth 2024, clerc i gysylltu a hi.
12. Cyngor Sir Conwy trafodwyd ein cynllun gwariant ac daethom i benderfyniad bod rhaid codi ar y swm eleni a gofyn am £7,000.00.
13. Trydan ir goeden dolig ar ol trafodaeth gyda Dewi a Haf Jones nid oeddynt angen arian am y trydan a ddefnyddiwyd i oleuo y goeden ond ei dymnuniad oedd i roi cyfraniad i ysgol Cerrig. Pasiwyd i roi £50.00. Ysgrifennu llythyr o ddiolch.
14. Archwilio cymru cafwyd dau anfoneb am wneud yr Awdit un am £1380.00 awdit llawn (21) ar llall am £200 (22). Pasiwyd iw dalu.
15. Cyngor Sir Conwy cafwyd £2000.00 y precept ola (23).
16. Cyngor Sir Ddinbych pasiwyd i cysulltu efo'r Sir i gwyno am gyflwr y ffordd adeg y tywydd eira a rhew, diffyg greannu

17. Cais i Gronfa Brenig   mae dau gais wedi ei roi i fewn ir gronfa sef ail wynebu y cae peldroed  cafwyd dau bris un gan J Humphreys  Tai Draw a llall gan Hywel Jones, clawdd Newydd, anfonwyd y prisiau i Gethin Jones gan  bod y clerc yn datgan ei diddordeb i un or prisiau, trafodwyd ac cytunwyd ar y pris rhata sef J Humphreys, am £4,500.00. Ac yr ail gais oedd i gael hysbysfwrdd Newydd cafwyd pris gan Ian Evans ar gost o £598.00.